City & Guilds Lefel 2

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

**Ar gyfer addysgu am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2024.**



# Contents


Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ........ 1
ASESIAD ALLANOL ENGHREIFFTIOL ........ 3
Prawf Dewis Lluosog ........ 3
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion) ........ 4
CYNLLUN MARCIO - Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion) ........ 22
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Plant a Phobl Ifanc) ........ 24
CYNLLUN MARCIO - Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Plant a Phobl Ifanc) ........ 43

## Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

# ASESIAD ALLANOL ENGHREIFFTIOL

# Prawf Dewis Lluosog

# Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cymhwyster Craidd

## Asesiad Allanol

## Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion)

**SAMPL**

**Hyd**
Mae gennych **1 awr 45 munud** i gwblhau'r asesiad hwn.

Mae'r papur yn cynnwys **65** o gwestiynau.

**1** Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014).

Beth yw nod atal ac ymyrryd yn gynnar?

**a)** Darparu cyngor a chymorth amserol i atal pobl rhag cyrraedd pwynt argyfwng.

**b)** Darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan mae pobl yn cyrraedd pwynt argyfwng.

**c)** Darparu cyllid ychwanegol i atal pobl rhag cyrraedd pwynt argyfwng.

**d)** Darparu Gweithiwr Cymdeithasol pan mae pobl yn cyrraedd pwynt argyfwng.

**2** John sy'n gyfrifol am gynllunio'r fwydlen wythnosol yn y lleoliad gofal. Mae gan dri (3) o'r preswylwyr sgiliau cyfathrebu llafar cyfyngedig.

Pa ddull gweithredu dylai John ei gymryd wrth baratoi'r fwydlen?

**a)** Cynllunio gyda'r preswylwyr sydd â sgiliau cyfathrebu llafar da.

**b)** Cynllunio gyda'r gweithwyr gofal a chymorth eraill yn y cartref.

**c)** Cynllunio ar ei ben ei hun ac argraffu bwydlen ar gyfer y preswylwyr.

**d)** Cynllunio gyda'r preswylwyr i gyd, gan ddefnyddio lluniau i helpu â'r cyfathrebu.

**3** Sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ceisio cefnogi dulliau seiliedig ar hawliau?

**a)** Mae'n hybu llais a rheolaeth.

**b)** Mae'n diffinio'r cynnig rhagweithiol.

**c)** Mae'n nodi nodweddion gwarchodedig.

**d)** Mae'n sicrhau bod penderfyniadau budd pennaf yn cael eu gwneud.

**4** Sut mae eiriolaeth yn cefnogi dull seiliedig ar hawliau?

**a)** Mae'n gwneud yn siŵr bod unigolion yn gwneud y dewisiadau cywir.

**b)** Mae'n gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn atebol.

**c)** Mae'n cael ei defnyddio i ddatrys cwynion.

**d)** Mae'n cefnogi grymuso unigolion.

**5** Beth yw'r elfen **fwyaf** pwysig o gynllunio gofal person-ganolog?

**a)** Rhoi mynediad i'r unigolyn i broses gwyno.

**b)** Atal yr unigolyn rhag penderfynu ar y cynllun ar ei ben ei hun.

**c)** Darparu gwybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael i'r unigolyn.

**d)** Sicrhau bod yr unigolyn yn parhau i fod yn ganolog i'r cynllun sy'n effeithio arnyn nhw.

**6** Pa derm sy'n cael ei ddiffinio gan y disgrifiad canlynol?

'Cynnwys pobl a chymunedau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Gwneud pethau gyda, yn hytrach na gwneud pethau i, bobl.'

**a)** Llesiant.

**b)** Cydgynhyrchiad.

**c)** Gweithio amlasiantaethol.

**d)** Ymyrryd yn gynnar ac atal.

**7** Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n rhoi'r disgrifiad **gorau** o drin unigolyn ag urddas a pharch?

**a)** Ymarfer sy'n trin unigolyn fel byddech chi am gael eich trin eich hun.

**b)** Ymarfer sy'n trin unigolyn fel rydych chi'n meddwl bydden nhw am gael eu trin.

**c)** Darganfod beth sy'n bwysig i unigolyn a defnyddio hyn i arwain eich ymarfer.

**d)** Gofyn i weithwyr eraill sut maen nhw'n trin unigolyn a chopïo eu hymarfer nhw.

**8** Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n rhoi'r disgrifiad **gorau** o beth yw pwrpas cynlluniau personol?

**a)** Mae cynlluniau personol yn nodi sut bydd gofal unigolyn yn cael ei ddarparu.

**b)** Mae cynlluniau personol yn nodi anghenion a gofynion unigolyn.

**c)** Mae cynlluniau personol yn nodi'r hyn y dylai ac na ddylai unigolyn ei wneud.

**d)** Mae cynlluniau personol yn nodi cyfrifoldebau teuluoedd ar gyfer darparu gofal.

**9** Pa derm sy'n cael ei ddiffinio gan y disgrifiad canlynol?

‘Trin pawb gyda thegwch a pharch ac adnabod anghenion unigolion.’

**a)** Cydraddoldeb.

**b)** Cynhwysiant.

**c)** Barn.

**d)** Gwahaniaethu.

**10** Pa un o'r canlynol sy'n hybu cynhwysiant **orau** drwy ddulliau person-ganolog.

**a)** Gofyn barn unigolyn am weithgareddau.

**b)** Mae ymwelwyr yn derbyn holiaduron i wneud sylwadau am y gwasanaethau.

**c)** Rheolwyr yn gofyn i staff am eu safbwyntiau ar ymarfer gorau.

**d)** Mae teuluoedd/gofalwyr yn rhoi adborth ar y dewisiadau bwydlen sy'n cael eu darparu.

**11** Pa un o’r meini prawf canlynol byddai angen gwneud penderfyniad ‘pennaf lles’ (‘best interest’)?

1. Meddyliau a safbwyntiau aelodau o staff.
2. Barn a dymuniadau hysbys yr unigolyn.
3. Asesiad gallu meddyliol unigolyn.
4. Gofynion teulu’r unigolyn.

**a)** 1 a 2.

**b)** 2 a 3.

**c)** 3 a 4.

**d)** 4 ac 1.

**12** Pa un o'r gosodiadau hyn sydd **ddim** yn disgrifio dull cymryd risgiau cadarnhaol?

**a)** Cytbwys – adnabod y potensial i gael mantais yn ogystal â'r risg o niwed.

**b)** Amddiffynnol – adnabod bod risg o niwed a'r angen i amddiffyn unigolion.

**c)** Cydgynhyrchiol – cynnwys unigolion wrth asesu a chynllunio ar gyfer risgiau.

**d)** Rhagweithiol – cefnogi unigolion i gyflawni amcanion gan gydbwyso risgiau a chyfrifoldebau.

**13** Pa bryd gallai fod yn addas i weithiwr gofal a chymorth rannu gwybodaeth bersonol amdanyn nhw eu hunain, yn unol â ffiniau proffesiynol, wrth ddarparu gofal i unigolion?

**a)** Sicrhau gofal person-ganolog.

**b)** Hybu gweithio perthynas-ganolog.

**c)** Cynyddu manteision cydgynhyrchu.

**d)** Bodloni deddfwriaeth diogelu data.

**14** Pa un o'r canlynol **sydd ddim** yn nodwedd allweddol o gyfathrebu effeithiol?

**a)** Defnyddio cymorthion i gefnogi dealltwriaeth.

**b)** Ystyried ffactorau amgylcheddol.

**c)** Bod yn glir gyda beth sydd angen ei ddweud.

**d)** Siarad yn gyflym i wella dealltwriaeth.

**15** Sut dylai gweithwyr gofal a chymorth gyfathrebu ag unigolion?

**a)** Defnyddio tôn y llais arferol.

**b)** Gorffen brawddegau i unigolion.

**c)** Siarad yn uchel ac yn araf iawn.

**d)** Osgoi gwneud cyswllt llygaid ag unigolion.

**16** Pa un o'r canlynol sy'n egwyddor allweddol o'r fenter Mwy na Geiriau / More than just words?

**a)** Darparu dewisiadau cyfrwng Cymraeg cyn rhai cyfrwng Saesneg.

**b)** Sicrhau bod gwasanaethau gofal yn darparu eu dewisiadau cyfrwng Cymraeg yn weithredol.

**c)** Darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg rhad ac am ddim ym mhob lleoliad gofal.

**d)** Sicrhau bod gwasanaethau gofal yn defnyddio dim ond gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg.

**17** Pa un o'r canlynol sydd **fwyaf** tebygol o leihau'r angen am arferion cyfyngol?

**a)** Trin pob unigolyn yr un fath.

**b)** Gofyn am adborth bob mis.

**c)** Rheoli'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i unigolion.

**d)** Cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddyn nhw.

**18** Mae Glanmor yn siaradwr Cymraeg, mae ei wraig wedi marw'n ddiweddar ac mae e'n symud i fyw mewn cartref gofal.

Pa un o'r ffactorau hyn fyddai'n **fwyaf** tebygol o helpu gwneud hyn yn brofiad cadarnhaol?

**a)** Symud i gartref gofal ar unwaith heb ymweld gyntaf.

**b)** Cael ystafell wedi'i dodrefnu'n barod heb unrhyw eitemau personol.

**c)** Symud i gartref lle maen nhw'n siarad Saesneg yn unig.

**d)** Ymweld â'r cartref gofal sawl gwaith cyn symud i mewn.

**19** Mae Ashok yn Hindŵ ac yn llysieuwr caeth (*strict*). Mae ei weithiwr gofal a chymorth Dylan yn dod â byrgyr cig eidion gyda ef i'r gwaith i'w goginio ar gyfer ei ginio gan nad yw'n hoffi bwyd llysieuol. Fel arfer, maen nhw'n eistedd ac yn cael cinio gyda'i gilydd.

Beth yw'r effaith **fwyaf tebygol** ar Ashok?

**a)** Teimlo'n falch.

**b)** Teimlo ei fod yn cael ei barchu.

**c)** Teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.

**d)** Teimlo nad yw'n cael ei barchu.

**20** Pa ffactor sydd **fwyaf tebygol** o helpu i hybu iechyd a llesiant unigolion?

**a)** Lleihau cymeriant alcohol.

**b)** Cyfyngu ar gyswllt cymdeithasol.

**c)** Newid amgylchedd yn rheolaidd.

**d)** Dibynnu ar bobl eraill am gefnogaeth ariannol.

**21** Pa un o'r canlynol sy'n enghraifft o'r model cymdeithasol o anabledd?

**a)** Mae trafnidiaeth arbenigol yn cael ei darparu ar gyfer pobl sydd ddim yn gallu cael mynediad i drafnidiaeth brif ffrwd.

**b)** Mae cyfathrebu yn cael ei deilwra i gwrdd ag anghenion unigolion ac mae'r holl wybodaeth yn cael ei chynnig mewn amrywiaeth o fformatau.

**c)** Mae addasiadau penodol yn cael eu gwneud yn y cartref i fodloni anghenion yr unigolyn.

**d)** Mae offer fel chwyddwydr yn cael ei ddarparu i roi cymorth i bobl ddarllen ffontiau maint safonol.

**22** Mae Margaret yn byw mewn lleoliad gofal. Mae hi'n pobi cacennau bob wythnos i'w rhoi i'w ffrindiau.

Pa un o'r canlynol fyddai **ddim** yn fantais i Margaret wrth fynd ati i wneud y gweithgaredd hwn?

**a)** Iechyd corfforol.

**b)** Llesiant emosiynol.

**c)** Llesiant ariannol.

**d)** Ysgogi deallusol.

**23** Pa un o'r canlynol sydd **fwyaf** tebygol o gael ei brofi gan oedolion wnaeth ffurfio ymlyniad cryf yn ystod eu plentyndod?

**a)** Hunangysyniad negyddol.

**b)** Diffyg hyder.

**c)** Hunan-barch da.

**d)** Synnwyr hiwmor da.

**24** Pa ffactor ffordd o fyw sydd **fwyaf** tebygol o gyfrannu at anawsterau gydag ymataliaeth?

**a)** Gorfwyta.

**b)** Camdreuliad.

**c)** Colli pwysau eithriadol.

**d)** Symudedd corfforol gwael.

**25** Pa rannau o'r corff sydd **fwyaf tebygol** o gael eu heffeithio gan friwiau pwysau?

**a)** Croen y pen a'r gwddf.

**b)** Y stumog a'r pengliniau.

**c)** Ysgwyddau a chlustiau.

**d)** Penelinau a ffolennau.

**26** Pa rai o'r gweithwyr proffesiynol canlynol fyddai'n helpu gyda gofal iechyd y geg?

1) Hylenyddion.
2) Deintyddion.
3) Podiatregwyr
4) Gwaedyddion.

**a)** 1 and 2.

**b)** 2 and 3.

**c)** 3 and 4.

**d)** 4 and 1.

**27** Beth yw'r arwyddion cyffredin o haint ffwngaidd ar ewin y droed?

**a)** Ewinedd wedi'u cleisio a'u hollti.

**b)** Ewinedd melyn, brau (*crumbly*).

**c)** Casewin difrifol.

**d)** Yr ewinedd yn tyfu'n ddifrifol o hir.

**28** Mae fferyllydd yn gyfrifol am roi cyffuriau ar bresgripsiwn.

Pa rai o'r canlynol fyddai **ddim** yn cael ei gynnwys ar label meddyginiaeth?

**a)** Enw'r person sy'n cymryd y feddyginiaeth.

**b)** Oed y person sy'n cymryd y feddyginiaeth.

**c)** Y dos i'w gymryd, sut a pha bryd.

**d)** Dyddiad dosbarthu'r feddyginiaeth.

**29** Beth yw'r rheswm **mwyaf** pwysig pam mae angen i unigolion gadw at ddeiet cytbwys?

**a)** Osgoi dod i gysylltiad ag afiechydon posibl.

**b)** Gwella ymddangosiad personol.

**c)** Datblygu perthnasoedd personol.

**d)** Cynnal y corff i weithredu'n iawn.

**30** Pa un o'r canlynol sy'n helpu i atal disgyn/cwympo?

**a)** Slipers llac cyfforddus.

**b)** Peidio â sychu lloriau yn iawn.

**c)** Cerdded o gwmpas mewn hosanau.

**d)** Esgidiau sy'n ffitio'n dda.

**31** Pa un yw'r rheswm **mwyaf** pwysig i unigolyn ystyried cynllun ymlaen llawn mewn perthynas â'u marwolaeth eu hunain?

**a)** Sicrhau bod y lleoliad yn gallu rheoli costau cynnal y cynllun personol.

**b)** Gadael i rywun edrych ar ôl eu dymuniadau os ydyn nhw'n rhy wael i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

**c)** Sicrhau bod y lleoliad gofal lle mae'r unigolyn yn byw yn gallu adolygu'r cynllun ymlaen llaw.

**d)** Gadael i bobl eraill newid y cynllun yn nes ymlaen heb fod angen cydsyniad yr unigolyn.

**32** Pa un yw'r dechnoleg gynorthwyol **fwyaf** priodol i gefnogi unigolyn sydd ddim yn gallu siarad?

**a)** Chwaraewr sain.

**b)** Bwrdd lluniau.

**c)** Chwyddhadur sgrin.

**d)** Teclyn clywed.

**33** Beth yw achos **mwyaf** cyffredin colli synnwyr cyffwrdd?

**a)** Diabetes.

**b)** Dementia.

**c)** Glaucoma.

**d)** Tinitws.

**34** Pa derm sy'n cael ei ddiffinio gan y disgrifiad canlynol?

'Dirywiad gwybyddol sy'n ganlyniad clefyd yr ymennydd sy'n cynyddu dros gyfnod o amser.'

**a)** Iselder.

**b)** Dadhydradiad.

**c)** Diabetes.

**d)** Dementia.

**35** Beth yw effaith bosibl gorbryder ar iechyd corfforol unigolyn?

**a)** Colled cof.

**b)** Dryswch.

**c)** Siwgr gwaed isel.

**d)** Pwysedd gwaed uchel.

**36** Beth yw dangosydd **ymddygiadol** posibl sy'n awgrymu bod rhywun yn camddefnyddio sylweddau o bosibl?

**a)** Mwy o sensitifrwydd i olau.

**b)** Cannwyll y llygad wedi cywasgu.

**c)** Colli pwysau dramatig.

**d)** Newidiadau mewn personoliaeth.

**37** Beth yw **prif** bwrpas disgrifiad swydd?

**a)** Dangos atebolrwydd cyflogwr.

**b)** Rhestru holl ofynion cyfreithiol cyflogai.

**c)** Amlinellu cyfrifoldebau cyffredinol rôl.

**d)** Rheoli gweithredoedd disgyblu staff.

**38** Pa un o'r canlynol mae'r cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ymdrin ag ef?

**a)** Rhoi gwybod bob amser am wybodaeth bersonol sydd wedi'i datgelu.

**b)** Hybu hawliau a buddiannau unigolion.

**c)** Amddiffyn eich llesiant personol mewn lleoliadau gofal.

**d)** Rheoli cyfranogiad gweithwyr proffesiynol gofal eraill.

**39** Mae Arthur yn unigolyn y mae Lisa yn gofalu amdano. Mae e'n dweud wrth Lisa bod un o'i chydweithwyr wedi bod yn ymweld ag ef ar gyfer ei alwad hanner awr, ond dim ond yn aros am tua deg munud. Mae hyn yn ypsetio Arthur, ond nid yw am i gydweithiwr Lisa fod mewn trwbl, felly mae e'n gofyn iddi hi beidio â dweud unrhyw beth.

Beth yw'r ffordd **orau** i Lisa weithredu yn y senario hwn?

**a)** Aros am gyfnod byr a gweld a yw'r sefyllfa yn gwella.

**b)** Ei ysgrifennu yn y cofnodion dyddiol sydd eu hangen ar weithwyr i gwblhau'r holl ymweliadau.

**c)** Siarad â'r cydweithiwr dan sylw i ddarganfod beth sy'n mynd ymlaen.

**d)** Cofnodi'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi a'i rhoi i reolwr ar unwaith.

**40** Pam mae cydgynhyrchu yn bwysig wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill?

**a)** Gwneud y gwasanaeth yn rhatach i'w ddarparu.

**b)** Gwella enw da'r gwasanaeth.

**c)** Bodloni gofynion deddfwriaeth diogelwch bresennol.

**d)** Sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r unigolyn sy'n cael mynediad i'r gofal.

**41** Beth sydd **fwyaf tebygol** o hybu gweithio mewn tîm effeithiol mewn lleoliad gofal?

**a)** Sicrhau bod aelodau newydd o'r tîm yn diweddaru'r holl gynlluniau personol.

**b)** Cofnodi'r holl arsylwadau mewn dyddiadur myfyriol personol.

**c)** Rhoi adborth i deulu a ffrindiau unigolyn.

**d)** Rhoi gwybodaeth yn gyson i aelodau eraill o'r tîm.

**42** Pa ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â storio gwybodaeth?

**a)** Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

**b)** Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

**c)** Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi.

**d)** Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

**43** Pa un o'r canlynol sydd **fwyaf** pwysig wrth gofnodi gwybodaeth?

**a)** Ffeithiau.

**b)** Syniadau.

**c)** Safbwyntiau.

**d)** Penderfyniadau.

**44** Mae Greg wedi derbyn 'cais i fod yn ffrind' ar y cyfryngau cymdeithasol gan un o'r unigolion mae'n rhoi cymorth iddyn nhw.

Beth yw'r ffordd **orau** i Greg weithredu gyda'r cais hwn?

**a)** Ei anwybyddu a gofyn i bob cydweithiwr wneud yr un peth.

**b)** Esbonio wrth yr unigolyn nad ydyn nhw'n gallu derbyn.

**c)** Ei wrthod a newid y gosodiadau diogelwch i'r rhai uchaf.

**d)** Ei dderbyn ond peidio â gwneud sylwadau am y gwaith o hyn allan.

**45** Beth yw **prif** bwrpas gwerthusiad?

**a)** Trafod materion yn y tîm.

**b)** Siarad am unigolion.

**c)** Siarad am ddatblygiad personol.

**d)** Trafod perfformiad y sefydliad.

**46** Beth yw'r arwyddion posibl bod unigolyn yn cael ei gam-drin yn **gorfforol**?

1) Cleisiau heb esboniad.
2) Dim arian i brynu pethau hanfodol.
3) Yn ei chael yn anodd gwneud ffrindiau.
4) Newidiadau mewn ymddygiad.

**a)** 1 and 2.

**b)** 2 and 3.

**c)** 3 and 4.

**d)** 4 and 1.

**47** Pa un sy'n cael ei gydnabod fel categori o gam-drin?

**a)** Cymdeithasol.

**b)** Strwythurol.

**c)** Emosiynol.

**d)** Addysgiadol.

**48** Mae Poppy yn dweud wrth weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol ei bod yn cael ei cham-drin yn rhywiol yn ei lleoliad preswyl.

Sut dylai'r gweithiwr ymateb?

**a)** Maen nhw'n holi'r holl staff.

**b)** Maen nhw'n esbonio y byddan nhw'n rhoi gwybod amdano.

**c)** Maen nhw'n addo ei gadw'n gyfrinach.

**d)** Maen nhw'n ymchwilio'r sefyllfa.

**49** Beth yw'r rheswm **mwyaf** pwysig am weithio mewn ffordd person-ganolog mewn lleoliad gofal?

**a)** Cynnal hawliau unigolion sy'n derbyn gofal.

**b)** Bodloni gofynion iechyd a diogelwch presennol.

**c)** Cynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y lleoliad gofal.

**d)** Hybu ymdeimlad o gymuned yn y lleoliad gofal.

**50** Pam gallai fod angen ystyried defnyddio eiriolwr mewn achos diogelu ynghylch oedolyn mewn perygl?

**a)** Cynghori beth yw'r ffordd orau o weithredu ar gyfer yr unigolyn.

**b)** Gwneud yr holl benderfyniadau ar ran yr unigolyn.

**c)** Cefnogi'r unigolyn i ddweud beth maen nhw am ei gael a chynrychioli eu buddiannau.

**d)** Gwneud yn siŵr bod safbwyntiau ffrindiau a theulu'r unigolyn yn cael blaenoriaeth.

**51** Pa un o'r rhain yw un o'r **prif** dasgau sy'n ymwneud â diogelu i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol?

**a)** Nodi a rhoi gwybod am bryderon ynghylch niwed, cam-drin neu esgeuluso.

**b)** Gofyn cwestiynau i'r unigolyn am bryderon ynghylch niwed, cam-drin neu esgeuluso.

**c)** Siarad â theuluoedd unigolion am bryderon ynghylch niwed, cam-drin neu esgeuluso.

**d)** Aros tan y byddan nhw'n siŵr am niwed, cam-drin neu esgeuluso cyn rhoi gwybod am y pryderon.

**52** Pa derm sy'n cael ei ddiffinio gan y disgrifiad canlynol?

'Proses i wneud unigolyn yn llai tebygol o wrthod neu roi gwybod am gamdriniaeth.'

**a)** Radicaleiddio.

**b)** Bwlio.

**c)** Meithrin perthynas amhriodol.

**d)** Ecsbloetio.

**53** Beth ddylai gael ei **osgoi** os oes amheuaeth bod niwed neu gam-drin posibl yn digwydd?

**a)** Rhoi gwybod am bryderon.

**b)** Defnyddio gwrando gweithredol.

**c)** Defnyddio cwestiynau arweiniol.

**d)** Cofnodi manylion datgeliad.

**54** Beth yw'r rhwystr **posibl mwyaf tebygol** i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn codi pryderon eu bod yn amau bod rhywun yn cael ei gam-drin?

**a)** Y cynnydd yn y gwaith papur.

**b)** Peidio â chael digon o arian i godi achos.

**c)** Diffyg dealltwriaeth o bolisïau a phrosesau.

**d)** Llai o amser ar gael i ddarparu gwasanaethau.

**55** Pa un o'r canlynol byddai 'chwythwr chwiban' yn eu codi?

**a)** Problem deuluol bersonol.

**b)** Achos o ymarfer anniogel.

**c)** Newid i bolisi neu weithdrefn.

**d)** Dadl rhwng cydweithwyr yn y gwaith.

**56** Pa un o'r canlynol yw'r ffordd gywir i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymateb i niwed, cam-drin neu esgeuluso sy'n cael ei amau ei ddatgelu neu ei honni?

**a)** Ymchwilio i'r sefyllfa.

**b)** Gwneud addewid o gyfrinachedd.

**c)** Ymateb yn gryf.

**d)** Gwrando'n ofalus.

**57** Mae ymwelydd yn cyrraedd lleoliad gofal ac yn dweud ei fod yn dod o'r awdurdod lleol. Nid yw'n gallu darparu unrhyw ddull adnabod pan mae rhywun yn gofyn am hynny.

Beth yw'r ffordd **fwyaf** priodol o weithredu yn y senario hwn?

**a)** Gwrthod gadael iddo ddod i mewn, cau'r drws a chysylltu â'r rheolwr.

**b)** Gwrthod gadael iddo ddod i mewn os nad yw'n dangos ei drwydded yrru.

**c)** Gadael iddo ddod i mewn a dweud wrtho am fynd i chwilio am y rheolwr.

**d)** Gadael iddo ddod i mewn ond gwneud nodyn o'i enw a manylion cyswllt.

**58** Pa un o'r canlynol sy'n ymwneud â hyfforddiant diogelwch tân i gyflogeion?

**a)** Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

**b)** Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi.

**c)** Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

**d)** Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

**59** Beth yw'r cam **cyntaf** wrth baratoi i symud gwrthrych mawr?

**a)** Gofyn am gymorth gan bobl eraill.

**b)** Gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol.

**c)** Dod o hyd i gyfarpar trafod â llaw.

**d)** Ystyried y dasg i'w chwblhau.

**60** Pa un o'r canlynol mae bacteria yn ei achosi?

**a)** Salmonella.

**b)** Y frech goch.

**c)** Clefyd crafu.

**d)** Tarwden y traed.

**61** Beth yw cyfrifoldeb **cyflogwr** mewn perthynas â rheoli heintiau?

**a)** Cwblhau asesiadau risg wythnosol.

**b)** Datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd bob dydd.

**c)** Rhoi gwybod i'w awdurdod lleol am bob afiechyd sy'n digwydd.

**d)** Darparu cyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer gweithwyr.

**62** Pa ddeddfwriaeth sy'n gofyn bod angen rhoi gwybod i Iechyd Cyhoeddus Cymru am achosion o norofirws yn digwydd?

**a)** Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi.

**b)** Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

**c)** Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

**d)** Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

**63** Beth yw'r ffordd **orau** o storio gwastraff bwyd mewn cegin?

**a)** Mewn bag siopa plastig wedi'i ailgylchu.

**b)** Mewn cynhwysydd plastig ar y llawr.

**c)** Mewn bin â leinin gyda chaead sy'n ffitio'n dynn.

**d)** Mewn bin ailgylchu top agored metel.

**64** Beth ddylai gael ei wneud **yn gyntaf** wrth waredu diheintydd?

**a)** Ei waredu mewn cynhwysydd sydd ddim yn gollwng mewn bin.

**b)** Ei waredu'n ofalus i lawr y system ddraenio.

**c)** Darllen y label i weld sut i'w waredu.

**d)** Ei waredu mewn uned gwastraff cydnabyddedig.

**65** Mae Freddie yn sylwi nad yw ei gydweithiwr Lucia yn ymddwyn fel hi ei hun. Mae hi'n flin iawn ac wedi bod yn siarad yn flin â chydweithwyr eraill.

Beth yw'r **peth cyntaf** dylai Freddie ei wneud?

**a)** Dweud wrth Lucia i fynd adref ac i ddod ati hi ei hun.

**b)** Dweud wrth Lucia y bydd popeth yn iawn ac y bydd pethau'n gweithio allan.

**c)** Sgwrsio gyda Lucia i geisio dod i wybod beth sy'n bod i weld ydy e'n gallu helpu.

**d)** Trefnu cyfarfod ffurfiol i fynegi ei bryderon i reolwr Lucia.

## CYNLLUN MARCIO - Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion)

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr allwedd atebion cywir fesul cwestiwn yn y prawf; hefyd nodir y cyfeirnod uned a maen prawf asesu mae pob cwestiwn yn ymwneud ag ef.

| Cwestiwn | Ateb allwedd cywir | Uned | Meini prawf asesu |
|---|---|---|---|
| **1** | A | 001 | 1.1 |
| **2** | D | 001 | 1.2 |
| **3** | A | 001 | 2.2 |
| **4** | D | 001 | 2.4 |
| **5** | D | 001 | 3.1 |
| **6** | B | 001 | 3.2 |
| **7** | C | 001 | 3.5 |
| **8** | A | 001 | 3.11 |
| **9** | A | 001 | 4.1a |
| **10** | A | 001 | 4.3 |
| **11** | B | 001 | 5.5 |
| **12** | B | 001 | 5.1 |
| **13** | B | 001 | 6.3 |
| **14** | D | 001 | 7.2 |
| **15** | A | 001 | 7.3 |
| **16** | B | 001 | 8.3 |
| **17** | D | 001 | 9.3 |
| **18** | D | 001 | 10.2 |
| **19** | D | 001 | 11.1 |
| **20** | A | 003 | 1.2 |
| **21** | B | 003 | 2.3 |
| **22** | C | 003 | 2.6 |
| **23** | C | 003 | 2.9 |
| **24** | D | 003 | 3.5 |
| **25** | D | 003 | 4.5 |
| **26** | A | 003 | 5.7 |
| **27** | B | 003 | 6.3 |
| **28** | B | 003 | 7.2 |
| **29** | D | 003 | 8.4 |
| **30** | D | 003 | 9.2 |
| **31** | B | 003 | 10.3 |
| **32** | B | 003 | 11.2 |
| **33** | A | 003 | 12.2 |
| **34** | D | 003 | 13.1 |
| **35** | D | 003 | 14.4 |
| **36** | D | 003 | 15.2 |
| **37** | C | 005 | 1.2 |
| **38** | B | 005 | 1.1 |
| **39** | D | 005 | 1.14 |
| **40** | D | 005 | 2.2 |
| **41** | D | 005 | 3.2 |
| **42** | A | 005 | 4.2 |
| **43** | A | 005 | 4.8 |
| **44** | B | 005 | 5.3 |
| **45** | C | 005 | 6.10 |
| **46** | D | 006 | 1.3 |
| **47** | C | 006 | 1.2 |
| **48** | B | 006 | 1.6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **49** | A | 006 | 2.5 |
| **50** | C | 006 | 2.2 |
| **51** | A | 006 | 2.1 |
| **52** | C | 006 | 3.4 |
| **53** | C | 006 | 4.3 |
| **54** | C | 006 | 4.7 |
| **55** | B | 006 | 4.5 |
| **56** | D | 006 | 4.1 |
| **57** | A | 007 | 8.2 |
| **58** | C | 007 | 3.1 |
| **59** | D | 007 | 4.3 |
| **60** | A | 007 | 5.2c |
| **61** | D | 007 | 5.8 |
| **62** | D | 007 | 5.7 |
| **63** | C | 007 | 6.7 |
| **64** | C | 007 | 7.4 |
| **65** | C | 007 | 9.3 |
| | | **Cyfanswm : 65 marc** | |
| | | | **Marc llwyddo 47/65.** |

# Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cymhwyster Craidd

## Asesiad Allanol

## Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Plant a Phobl Ifanc)

### SAMPL

**Hyd**
Mae gennych **1 awr 45 munud** i gwblhau'r asesiad hwn.

Mae'r papur yn cynnwys **65** o gwestiynau.

**1** Cyd-gynhyrchu yw un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014).

Beth mae 'cydgynhyrchu' yn canolbwyntio arno?

**a)** Amodau a sefyllfaoedd plant a phobl ifanc.

**b)** Natur agored i niwed a chyfyngiadau plant a phobl ifanc.

**c)** Cryfderau ac arbenigedd plant a phobl ifanc.

**d)** Anghenion a gofynion plant a phobl ifanc.

**2** Beth yw **prif** bwrpas y codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol?

**a)** Helpu cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddisgyblu gweithwyr sydd ddim yn dilyn y rheolau.

**b)** Helpu unigolion i wybod sut mae disgwyl iddyn nhw ymddwyn os ydyn nhw'n defnyddio gwasanaethau.

**c)** Helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i wybod yr hyn sy'n cael eu disgwyl ganddyn nhw.

**d)** Helpu teuluoedd i wneud cwyn os nad ydyn nhw'n hapus am eu gwasanaeth.

**3** Sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ceisio cefnogi dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau i blant a phobl ifanc?

**a)** Mae'n diffinio'r cynnig rhagweithiol.

**b)** Mae’n hybu llais a rheolaeth.

**c)** Mae'n nodi nodweddion gwarchodedig

**d)** Mae’n sicrhau bod penderfyniadau budd pennaf yn cael eu gwneud

**4** Sut mae eiriolaeth yn cefnogi dull seiliedig ar hawliau ar gyfer plant/pobl ifanc?

**a)** Mae'n gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn gwneud y dewisiadau cywir.

**b)** Mae'n gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn atebol.

**c)** Mae'n cefnogi grymuso (*empowerment*) plant a phobl ifanc.

**d)** Mae'n cael ei ddefnyddio i ddatrys pob cwyn (*complaint*) sydd gan blant a phobl ifanc.

**5** Beth yw manteision dull plentyn-ganolog i ddysgu?

1) Plant yn chwarae ar eu pen eu hunain yn unig.
2) Plant yn dysgu ar eu cyflymder eu hunain.
3) Mae plant yn gallu mynegi eu hunain.
4) Mae plant yn gwneud yr hyn mae rhywun yn dweud wrthyn nhw am ei wneud.

**a)** 1 a 2.

**b)** 2 a 3.

**c)** 3 a 4.

**d)** 4 a 1.

**6** Mae lleoliad gofal yn cael cyfarfod gyda'r plant a phobl ifanc i drafod a chytuno ar yr hyn yr hoffen nhw ei wneud yn ystod y gwyliau ysgol.

Beth sy'n cael ei hybu yn y senario hwn?

**a)** Hybu byw'n annibynnol.

**b)** Hybu llais, dewis a rheolaeth.

**c)** Hybu hawliau a chyfrifoldebau.

**d)** Hybu cymryd risgiau cytbwys.

**7** Pam mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wybod beth yw dewisiadau a chefndir plant neu bobl ifanc maen nhw'n eu cefnogi?

**a)** Gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw.

**b)** Gwybod pa mor iach ydyn nhw.

**c)** Gwybod pa mor ddeallus ydyn nhw.

**d)** Gwybod beth sy'n digwydd iddyn nhw.

**8** Beth yw'r rheswm **mwyaf** pwysig i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddilyn cynlluniau personol plant a phobl ifanc?

**a)** Maen nhw'n nodi faint o amser ddylai gweithwyr ei gymryd i gwblhau tasgau gyda phlant a phobl ifanc.

**b)** Maen nhw'n disgrifio sut mae plant a phobl ifanc yn debygol o ymddwyn.

**c)** Maen nhw'n nodi sut dylai gweithwyr gefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu hamcanion.

**d)** Maen nhw'n disgrifio beth sydd wedi digwydd ym mywyd plant a phobl ifanc.

**9** Mae James yn blentyn gyda pharlys yr ymennydd. Mae’r plant yn lleoliad gofal yn mynd i chwarae gemau yn yr awyr agored ac mae gweithiwr gofal a chymorth yn dweud na fydd James yn gallu cymyrd rhan yn y gemau grŵp. Mae'n awgrymu y dylai James aros y tu mewn gyda gweithiwr arall i chwarae.

Pan un o’r termau hyn sy’n cael ei ddangos yn y scenario?

**a)** Cydraddoldeb.

**b)** Amrywiaeth.

Cynhwysiant

**c)** Gwahaniaethu.

**d)** Cydraddoldeb.

**10** Mae person ifanc yn gwneud jôc sy'n gwahaniaethu.

Beth yw'r ffordd **orau** i weithwr iechyd a gofal cymdeithasol ymateb?

**a)** Cytuno ac ymuno yn y jôc.

**b)** Esbonio pam mae'r jôc yn annerbyniol.

**c)** Rhannu'r jôc â phobl eraill yn y lleoliad.

**d)** Awgrymu'n ysgafn na ddylai ailadrodd y jôc.

**11** Pa un o’r canlynol sydd **mwyaf** pwysig i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ystyried wrth annog plant unigol i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymryd risgiau positif?

**a)** Lefel y profiad gan staff a chymarebau rhywedd.

**b)** Y nifer o blant yn y grŵp a’u hoedran.

**c)** Y nifer o staff sydd wedi eu hyfforddi ar gael i gefnogi.

**d)** Galluoedd, oedran a chamau datblygiad y plant.

**12** Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n disgrifio orau y dull 'cymryd risgiau cadarnhaol'?

**a)** Amddiffynnol – adnabod bod risg o niwed a bod angen amddiffyn plant a phobl ifanc.

**b)** Adweithiol – ymateb i sefyllfaoedd lle mae risg ac atal y rhain rhag digwydd eto.

**c)** Cytbwys – adnabod y potensial i gael mantais yn ogystal â'r risg o niwed.

**d)** Osgoi – osgoi risgiau oherwydd y posibilrwydd o niwed i blant a phobl ifanc.

**13** Beth yw'r **prif** reswm pam mae lleoliad yn annog ymweliadau gan deuluoedd a gofalwyr?

**a)** I greu amgylchedd cartrefol.

**b)** Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n rhan o weithgareddau.

**c)** I helpu plant/pobl ifanc i gynnal perthnasoedd.

**d)** Lleihau'r pwysau ar weithwyr.

**14** Pa un o’r canlynol sydd **ddim** yn sgil angenrheidiol er mwyn cyfathrebu yn effeithiol?

**a)** Siarad yn glir.

**b)** Iaith y corff agored.

**c)** Dangos diddordeb.

**d)** Dim cyswllt llygaid.

**15** Pa un o'r rhain **fyddai'n** rhwystr i gyfathrebu?

**a)** Defnyddio ystumiau.

**b)** Amgylchedd swnllyd.

**c)** Iaith y corff agored.

**d)** Cymhorthion nam ar y synhwyrau.

**16** Pa un o’r canlynol sy’n egwyddor **allweddol** o’r fenter Mwy na Geiriau / More than just words?

**a)** Darparu dewisiadau cyfrwng Cymraeg cyn rhai cyfrwng Saesneg.

**b)** Sicrhau bod gwasanaethau gofal yn darparu eu dewisiadau cyfrwng Cymraeg yn weithredol.

**c)** Darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg rhad ac am ddim ym mhob lleoliad gofal.

**d)** Sicrhau bod gwasanaethau gofal yn defnyddio dim ond gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg.

**17** Mae Linda yn blentyn sy'n dangos ymddygiadau heriol. Ar rai adegau, roedd angen ymyrryd yn gyfyngol i sicrhau ei bod hi a phobl eraill yn ddiogel. Mae gweithwyr y lleoliad yn awyddus i leihau'r angen i ddefnyddio'r rhain.

Pa un o'r rhain fydd **y peth gorau** i'w wneud i gefnogi'r nod hwn?

**a)** Cynllunio gweithgareddau i gefnogi anghenion unigol Linda.

**b)** Eithrio Linda rhag gwneud gweithgareddau pan fydd hi'n mynd yn ddig/yn grac.

**c)** Trin Linda yn yr un ffordd â'r plant eraill bob amser.

**d)** Edrych ar beth sy'n gwneud plant eraill yn ddig/yn grac.

**18** Pa un o’r canlynol sydd **mwyaf** tebygol o fod yn ‘ddigwyddiad bywyd arwyddocaol’ ar gyfer plentyn/person ifanc?

**a)** Ffraeo gyda ffrindiau.

**b)** Marwolaeth rhiant.

**c)** Ymuno â chlwb chwaraeon.

**d)** Cael pen-blwydd.

**19** Mae Kyle yn cael ymweld â chartref ei deulu dan oruchwyliaeth (*supervised*). Mae'r cartref yn anniben gyda dysglau budr, cartonau tecawê a blychau llwch (*ashtrays*) gorlawn. Nid yw Jackie'n hoffi cefnogi Kyle ar yr ymweliadau hyn gan ei bod hi'n ffyslyd bod popeth yn lân. Mae Kyle yn gwybod hyn gan ei bod hi wedi dweud wrtho bod angen iddo ef gael cawod yn syth ar ôl ymweliadau gan ei fod yn drewi.

Sut mae Kyle yn debygol o deimlo?

**a)** Amwys.

**b)** Wedi'i werthfawrogi.

**c)** Cywilydd.

**d)** Wedi'i barchu.

**20** Pa derm sy'n cael ei ddiffinio gan y disgrifiad canlynol?

‘Bod yn iach, teimlo'n dda am eich bywyd, teimlo'n ddiogel ac yn gallu dysgu pethau newydd a hefyd yn gallu tyfu i fyny'n hapus a chael rhywun yn gofalu amdanoch chi'.

**a)** Lles.

**b)** Llesiant.

**c)** Y cynnig rhagweithiol.

**d)** Dull seiliedig ar hawliau.

**21** Pam mae teuluoedd a 'phobl bwysig eraill' yn bwysig ar gyfer llesiant plant a phobl ifanc.

**a)** Rhoi teimlad o bwysigrwydd.

**b)** Rhoi teimlad o berthyn.

**c)** Rhoi teimlad o ansicrwydd.

**d)** Rhoi teimlad o gyfiawnder.

**22** Pa un o'r canlynol fydd yn effeithio ar ddatblygiad plentyn mewn ffordd **gadarnhaol**?

1) Deiet cyfyngedig.
2) Afiechyd corfforol.
3) Ymarfer corff corfforol.
4) chwarae anstrwythuredig.

**a)** 1 a 2.

**b)** 2 a 3.

**c)** 3 a 4.

**d)** 4 a 1.

**23** Pa osodiad sy'n disgrifio'r model cymdeithasol o anabledd sy'n cael ei gymhwyso?

**a)** Ryan yn chwarae ar ei ben ei hun gan nad yw e'n gallu gweld y plant eraill.

**b)** Christine yn gallu mynd i ddosbarth dawns gan fod ei rhieni'n talu am ei chyllid (*funding*).

**c)** Julie'n cael eistedd a gwylio chwarae parasiwt gan ei bod hi mewn cadair olwyn.

**d)** Rashid yn cael mynediad at lyfrau gyda thestun mwy a lluniau gan ei fod yn rhannol ddall.

**24** Mae Gavin yn bryderus iawn am fynegi ei farn mewn ystafell o weithwyr proffesiynol yn ei adolygiad gofal.

Pa weithiwr proffesiynol yw'r unigolyn **gorau** i'w helpu i fynegi ei safbwyntiau a'i ddymuniadau?

**a)** Swyddog Heddlu.

**b)** Eiriolwr Annibynnol.

**c)** Therapydd Lleferydd.

**d)** Meddyg teulu.

**25** Pa un o'r ffactorau hyn sydd **fwyaf** tebygol o effeithio ar ddatblygiad a llesiant plant a phobl ifanc a fydd wedyn yn effeithio arnyn nhw yn ddiweddarach mewn bywyd.

**a)** Tlodi.

**b)** Iechyd.

**c)** Oed.

**d)** Rhywedd.

**26** Mae plant a phobl ifanc sydd ag ymlyniad ansicr yn **debygol** o fod â pha un o'r canlynol?

**a)** Anawsterau'n datblygu perthnasoedd ag eraill.

**b)** Perthnasoedd datblygiad cryf gyda phobl eraill.

**c)** Perthnasoedd amwys gyda phobl eraill.

**d)** Perthnasoedd cadarnhaol gyda phobl eraill.

**27** Pa un o'r canlynol sy'n nodwedd **gorfforol** o amgylchedd effeithiol?

**a)** Cymarebau staff uchel.

**b)** Arfarnu rheolaidd.

**c)** Tymereddau wedi'u rheoleiddio.

**d)** Polisïau diogelwch cyfoes.

**28** Beth yw'r **brif** fantais o gael trefn arferol gyson ar gyfer amser gwely i lesiant emosiynol plentyn?

**a)** Mae'r plentyn yn codi ac yn gwisgo amdano ar amser.

**b)** Mae'r plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn saff.

**c)** Mae'r plentyn yn perfformio'n well yn yr ysgol.

**d)** Mae gan y plentyn arferion hylendid da.

**29** Mae Alfie yn dawel ac yn aml yn fewnblyg (*withdrawn*). Mae e wedi bod yn mynd i grŵp drama therapiwtig ac mae'n gwneud ffrindiau yno. Mae ei weithwyr gofal a chymorth wedi sylwi bod ei lesiant cyffredinol wedi gwella. Mae Alfie yn dweud wrthyn nhw ei fod yn teimlo'n ddiogel yn y grŵp ac yn gallu mynegi ei hun yno.

Pa fath o amgylchedd sy'n cael ei ddisgrifio yma yn nhermau datblygiad cyfannol?

**a)** Amgylchedd dan do.

**b)** Amgylchedd awyr agored.

**c)** Amgylchedd ysgogol.

**d)** Amgylchedd emosiynol.

**30** Pa fath o chwarae sy'n cymysgu gweithgareddau hwyliog gyda phrofiadau dysgu ac yn anelu at gyflawni canlyniad penodol?

**a)** Chwarae amgylcheddol.

**b)** Chwarae llawn dychymyg.

**c)** Chwarae creadigol.

**d)** Chwarae strwythuredig.

**31** Pa rai o'r canlynol sy'n fanteision annog a chefnogi lefelau derbyniol o risg wrth chwarae?

1) Atal llithro a baglu.
2) Adeiladu gwydnwch cadarnhaol.
3) Datblygu sgiliau bywyd.
4) Lleihau gwrthdaro gyda chyfoedion.

**a)** 1 a 2.

**b)** 2 a 3.

**c)** 3 a 4.

**d)** 4 a 1.

**32** Mae Ben yn blentyn y mae datblygiad ei leferydd a sgiliau iaith yn araf o gymharu â phlant eraill o'r un oed ag ef.

Pa faes arall o ddatblygiad Ben sydd **fwyaf** tebygol o gael ei effeithio gan ddatblygiad araf ei leferydd a sgiliau iaith?

**a)** Datblygiad cymdeithasol.

**b)** Datblygiad corfforol.

**c)** Datblygiad gwybyddol.

**d)** Datblygiad diwylliannol.

**33** Pa werth sy'n cael ei hybu drwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol i blant ag **anghenion ychwanegol**?

**a)** Amrywiaeth.

**b)** Parch.

**c)** Cynhwysiant.

**d)** Cydweithredu.

**34** Pa un o'r sefydliadau hyn fyddai'n gallu **rhagnodi** meddyginiaeth i blant?

**a)** MIND.

**b)** Meddygfa'r meddyg teulu.

**c)** Dewisiadau GIG.

**d)** Awdurdod lleol.

**35** Beth yw'r ystyriaeth **fwyaf** pwysig wrth gefnogi plant gyda'u trefnau gofal personol arferol?

**a)** Parchu eu preifatrwydd.

**b)** Darparu ardaloedd toiled neillrywiol (*unisex*).

**c)** Cael gwared ar ddillad budr yn gyflym.

**d)** Darparu cyfarpar diogelu personol.

**36** Beth yw'r rheswm **pwysicaf** dros ddeiet cytbwys i blant?

**a)** Cynnal arferion cysgu.

**b)** Cefnogi ffitrwydd ac ymarfer corff.

**c)** Cynnal hylendid y geg.

**d)** Cefnogi datblygiad yr ymennydd a'r corff.

**37** Pa un o'r canlynol sy'n enghraifft o atebolrwydd?

**a)** Bod yn onest os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

**b)** Dirprwyo tasgau i gydweithwyr.

**c)** Rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd.

**d)** Bod yn barod i gymryd gwaith ychwanegol.

**38** Pa un o'r canlynol mae'r cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ymdrin ag ef?

**a)** Rhoi gwybod bob amser am wybodaeth bersonol sydd wedi'i datgelu.

**b)** Hybu hawliau a buddiannau unigolion.

**c)** Amddiffyn eich llesiant personol mewn lleoliadau gofal.

**d)** Rheoli cyfranogiad gweithwyr proffesiynol gofal eraill.

**39** Person ifanc yw Geraint mae Tamsin yn gofalu amdano. Mae e'n dweud wrth Tamsin bod un o'i chydweithwyr wedi bod yn defnyddio iaith anweddus (*bad language*) o'i gwmpas e. Mae hyn yn ei gynhyrfu ac mae e am i hyn stopio, ond nid yw am i gydweithiwr Tamsin fod mewn trwbl, felly mae e'n gofyn iddi hi beidio â dweud unrhyw beth.

Beth yw'r ffordd **orau** i Tamsin weithredu yn y senario hwn?

**a)** Aros a gweld a yw'r sefyllfa'n gwella.

**b)** Ysgrifennu am y sefyllfa yn y cofnodion dyddiol.

**c)** Rhoi gwybod i'r rheolwr am y sefyllfa ar unwaith.

**d)** Siarad â'r cydweithiwr dan sylw i ddarganfod beth sy'n mynd ymlaen.

**40** Beth yw'r **prif** reswm i weithio mewn partneriaeth ag eraill wrth ddarparu pecyn gofal?

**a)** Sicrhau bod gan bawb lais yn y broses o wneud penderfyniadau.

**b)** Nodi pwy fydd yn atebol am unrhyw wallau.

**c)** Cytuno ar gyfrifoldeb i rannu gwybodaeth.

**d)** Sicrhau bod pawb yn cytuno'r un nodau ar gyfer yr unigolyn.

**41** Beth sydd **fwyaf tebygol** o hybu gweithio mewn tîm effeithiol mewn lleoliad gofal?

**a)** Sicrhau bod aelodau newydd o'r tîm yn diweddaru'r holl gynlluniau personol.

**b)** Cofnodi'r holl arsylwadau mewn dyddiadur myfyriol personol.

**c)** Rhoi adborth i deulu a ffrindiau unigolyn.

**d)** Rhoi gwybodaeth yn gyson i aelodau eraill o'r tîm.

**42** Pa ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â storio gwybodaeth?

**a)** Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi

**b)** Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

**c)** Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

**d)** Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

**43** Pa un o'r canlynol yw'r **mwyaf** pwysig wrth gofnodi gwybodaeth?

**a)** Ffeithiau.

**b)** Syniadau.

**c)** Safbwyntiau.

**d)** Penderfyniadau.

**44** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio **orau** beth yw model rôl?

**a)** Person sy'n dangos hyder.

**b)** Person sy'n dangos pryder dros bobl eraill.

**c)** Person sydd wedi codi i fod mewn swydd uwch.

**d)** Person sy'n dangos ymarfer cadarnhaol.

**45** Beth yw **prif** bwrpas goruchwylio?

**a)** Deall sut i gyfrannu at ansawdd y gwasanaeth.

**b)** Nodi cyrsiau hyfforddi sydd ar gael.

**c)** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau newydd.

**d)** Adolygu cofnodion hyfforddi gorfodol.

**46** Beth yw'r arwyddion posibl bod **cam-drin corfforol** yn effeithio ar berson ifanc?

1) Cleisiau heb esboniad.
2) Dim arian i brynu pethau hanfodol.
3) Yn ei chael yn anodd gwneud ffrindiau.
4) Newidiadau mewn ymddygiad.

**a)** 1 a 2.

**b)** 2 a 3.

**c)** 3 a 4.

**d)** 4 a 1.

**47** Pa un sy'n cael ei gydnabod fel categori o gam-drin?

**a)** Cymdeithasol.

**b)** Strwythurol.

**c)** Emosiynol.

**d)** Addysgiadol.

**48** Mae Amy yn sylwi bod Tudor yn ymddangos yn ofnus ac yn fewnblyg pan mae un gweithiwr yn mynd yn agos atyn nhw.

Pa gamau gweithredu dylai Amy eu cymryd?

1. Siarad â'r aelod o staff dan sylw.
2. Cofnodi'r hyn sydd wedi'i arsylwi.
3. Rhoi gwybod i reolwr am hyn.
4. Trafod yn y cyfarfod trosglwyddo.

**a)** 1 a 2.

**b)** 2 a 3.

**c)** 3 a 4.

**d)** 4 a 1.

**49** Mae Lucy yn byw mewn lleoliad gofal preswyl. Sylwodd gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol ei bod wedi mynd yn fwy mewnblyg ac wedi cael ei dal yn ymladd gyda phlant eraill.

Pa un o'r canlynol yw'r cam gweithredu **gorau** i'r gweithiwr ei gymryd?

**a)** Monitro Lucy a cheisio ennyn ei diddordeb mewn gweithgareddau eraill.

**b)** Rhoi gwybod am bryderon yn unol â gweithdrefnau diogelu.

**c)** Dweud wrth Lucy am stopio ymladd yn unol â gweithdrefnau'r tŷ.

**d)** Trefnu cyfarfod gyda theulu/gofalwyr.

**50** Beth yw rôl eiriolwr annibynnol pan mae pryder diogelu sy'n ymwneud â pherson ifanc sy'n byw mewn lleoliad gofal preswyl?

**a)** Penderfynu ar y canlyniad gorau i'r person ifanc.

**b)** Nodi eu barn ar sefyllfa'r person ifanc.

**c)** Blaenoriaethu safbwyntiau ac anghenion teulu neu ofalwyr y person ifanc.

**d)** Cefnogi llais y person ifanc a chynrychioli eu buddiannau.

**51** Beth yw'r **prif** reswm ar gyfer defnyddio ymarfer plentyn-ganolog wrth ddiogelu?

**a)** Gwneud yn siŵr bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu dilyn.

**b)** Gwneud yn siŵr bod dymuniadau plentyn yn cael eu cwrdd bob amser.

**c)** Gwneud yn siŵr mai'r plentyn yw'r ffocws wrth wneud penderfyniadau.

**d)** Gwneud yn siŵr bod pob gweithiwr proffesiynol yn cael cefnogaeth.

**52** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio ymddygiad meithrin perthynas amhriodol byddai darpar gamdriniwr (*potential abuser*) yn gallu ei ddefnyddio?

**a)** Diweddaru ei gyfrif cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd.

**b)** Rhoi gwybod am y defnydd o sylweddau anghyfreithlon ac alcohol.

**c)** Defnyddio cyfrinachau i reoli a dychryn pobl eraill.

**d)** Treulio cyfnodau gormodol o amser ar y consol chwarae gemau cyfrifiadurol.

**53** Pa un o'r ffactorau canlynol sydd **fwyaf** tebygol o wneud i blentyn neu berson ifanc wynebu risg o niwed, cam-drin neu esgeuluso?

**a)** Anabledd.

**b)** Oed.

**c)** Rhywedd.

**d)** Iechyd.

**54** Beth ddylai gael ei **osgoi** os oes amheuaeth bod niwed neu gam-drin posibl yn digwydd?

**a)** Rhoi gwybod am bryderon.

**b)** Defnyddio gwrando gweithredol.

**c)** Defnyddio cwestiynau arweiniol.

**d)** Cofnodi manylion datgeliad.

**55** Beth yw'r rhwystr **posibl mwyaf tebygol** i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn codi pryderon eu bod yn amau bod rhywun yn cael ei gam-drin?

**a)** Y cynnydd yn y gwaith papur.

**b)** Peidio â chael digon o arian i godi achos.

**c)** Diffyg dealltwriaeth o bolisiau a phrosesau.

**d)** Llai o amser ar gael i ddarparu gwasanaethau.

**56** Pa un o'r canlynol byddai 'chwythwr chwiban' yn eu codi?

**a)** Problem deuluol bersonol.

**b)** Achos o ymarfer anniogel.

**c)** Newid i bolisi neu weithdrefn.

**d)** Dadl rhwng cydweithwyr yn y gwaith.

**57** Mae ymwelydd yn cyrraedd lleoliad gofal plant ac yn dweud ei fod yn dod o'r awdurdod lleol. Nid yw'n gallu darparu unrhyw ddull adnabod pan mae rhywun yn gofyn am hynny.

Beth yw'r ffordd **fwyaf** priodol o weithredu yn y senario hwn?

**a)** Gwrthod gadael iddo ddod i mewn, cau'r drws a chysylltu â'r rheolwr.

**b)** Gwrthod gadael iddo ddod i mewn os nad yw'n dangos ei drwydded yrru.

**c)** Gadael iddo ddod i mewn a chysylltu â'r rheolwr.

**d)** Gadael iddo ddod i mewn ond gwneud nodyn o'i enw a manylion cyswllt.

**58** Pa un o'r canlynol yw'r **prif** reswm i gadw mynedfeydd (*entrances*) yn glir bob amser?

**a)** Fel nad yw'r gwasanaeth yn cael dirwy am dorri deddfwriaeth.

**b)** Fel bod pobl yn gallu gadael yr adeilad os bydd tân.

**c)** Fel bod digon o le i ddanfon cyfarpar.

**d)** Fel bod y gwasanaeth yn ymddangos yn daclus i ymwelwyr.

**59** Beth yw'r cam gweithredu **cyntaf** i'w gymryd wrth baratoi i gefnogi person ifanc i symud o gadair i gadair olwyn?

**a)** Gwisgo cyfarpar diogelu personol.

**b)** Gwirio'r cynllun personol.

**c)** Gwirio'r cyfarpar.

**d)** Gofyn am gymorth gan bobl eraill.

**60** Pa un o'r canlynol mae bacteria yn ei achosi?

**a)** Impetigo.

**b)** Y frech goch.

**c)** Clefyd crafu.

**d)** Tarwden y traed.

**61** Pa un o'r ffactorau canlynol a fydd yn ei gwneud yn **fwy tebygol** y bydd haint yn digwydd?

**a)** Amser a sychder.

**b)** Maetholion a sychder.

**c)** Amser ac oerfel.

**d)** Cynhesrwydd a lleithder.

**62** Gofynnwyd i Anthony newid ei iwnifform ar ôl i unigolyn chwydu (*vomit*) arno.

Beth yw'r rheswm **mwyaf** pwysig am hyn?

**a)** Lleihau'r arogl annymunol.

**b)** Atal y risg o gwynion.

**c)** Atal pobl eraill rhag teimlo wedi cynhyrfu.

**d)** Lleihau'r risg o haint.

**63** Beth yw'r ffordd **orau** o storio gwastraff bwyd mewn cegin?

**a)** Mewn bag siopa plastig wedi'i ailgylchu.

**b)** Mewn cynhwysydd plastig ar y llawr.

**c)** Mewn bin â leinin gyda chaead sy'n ffitio'n dynn.

**d)** Mewn bin ailgylchu top agored metel.

**64** Pa un o'r canlynol sy'n ddiffiniad o'r term 'Rheoli Sylweddau Peryglus'?

**a)** Asesiadau risg rheolaidd yn y gweithle.

**b)** Gwiriadau dyddiol ar bob cyfarpar ac adnodd.

**c)** Cynnal gweithdrefnau gwacáu rheolaidd.

**d)** Lleihau dod i gysylltiad â defnyddiau sy'n effeithio ar iechyd.

**65** Mae Freddie yn sylwi nad yw ei gydweithiwr Lucia yn ymddwyn fel hi ei hun. Mae hi'n flin iawn ac wedi bod yn siarad yn flin â chydweithwyr eraill yn y gwaith.

Beth yw'r cam gweithredu **cyntaf** dylai Freddie ei gymryd yn y senario hwn?

**a)** Dweud wrth Lucia i fynd adref ac i ddod ati hi ei hun.

**b)** Dweud wrth Lucia y bydd popeth yn iawn ac y bydd pethau'n gweithio allan.

**c)** Sgwrsio gyda Lucia i geisio dod i wybod beth sy'n bod i weld ydy e'n gallu helpu.

**d)** Trefnu cyfarfod ffurfiol i fynegi ei bryderon i reolwr Lucia.

## CYNLLUN MARCIO - Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Plant a Phobl Ifanc)

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr allwedd atebion cywir fesul cwestiwn yn y prawf; hefyd nodir y cyfeirnod uned a maen prawf asesu mae pob cwestiwn yn ymwneud ag ef.

| Cwestiwn | Ateb allwedd cywir | Uned | Meini prawf asesu |
|---|---|---|---|
| 1 | C | 002 | 1.1 |
| 2 | C | 002 | 1.3 |
| 3 | B | 002 | 2.2 |
| 4 | C | 002 | 2.4 |
| 5 | B | 002 | 3.1 |
| 6 | B | 002 | 3.2 |
| 7 | A | 002 | 3.3 |
| 8 | C | 002 | 3.12 |
| 9 | D | 002 | 4.1d |
| 10 | B | 002 | 4.4 |
| 11 | D | 002 | 5.4 |
| 12 | C | 002 | 5.1 |
| 13 | C | 002 | 6.2 |
| 14 | D | 002 | 7.3 |
| 15 | B | 002 | 7.6 |
| 16 | B | 002 | 8.3 |
| 17 | A | 002 | 9.3 |
| 18 | B | 002 | 10.1 |
| 19 | C | 002 | 11.1 |
| 20 | B | 004 | 1.1a |
| 21 | B | 004 | 1.3 |
| 22 | C | 004 | 2.1 |
| 23 | D | 004 | 2.8b |
| 24 | B | 004 | 2.10 |
| 25 | A | 004 | 2.2 |
| 26 | A | 004 | 2.5 |
| 27 | C | 004 | 3.1 |
| 28 | B | 004 | 3.6 |
| 29 | D | 004 | 3.2 |
| 30 | D | 004 | 4.2a |
| 31 | B | 004 | 4.7 |
| 32 | A | 004 | 5.1 |
| 33 | C | 004 | 6.2 |
| 34 | B | 004 | 8.2 |
| 35 | A | 004 | 9.1 |
| 36 | D | 004 | 10.4 |
| 37 | A | 005 | 1.10 |
| 38 | B | 005 | 1.1 |
| 39 | C | 005 | 1.8 |
| 40 | D | 005 | 2.1a |
| 41 | D | 005 | 3.2 |
| 42 | C | 005 | 4.2 |
| 43 | A | 005 | 4.8 |
| 44 | D | 005 | 5.1 |
| 45 | A | 005 | 6.10 |
| 46 | D | 006 | 1.3 |
| 47 | C | 006 | 1.2 |
| 48 | B | 006 | 1.6 |
| 49 | B | 006 | 2.1 |
| 50 | D | 006 | 2.2 |
| 51 | C | 006 | 2.4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **52** | C | 006 | 3.4 |
| **53** | A | 006 | 3.1 |
| **54** | C | 006 | 4.3 |
| **55** | C | 006 | 4.7 |
| **56** | B | 006 | 4.5 |
| **57** | A | 007 | 8.2 |
| **58** | B | 007 | 3.5 |
| **59** | D | 007 | 4.3 |
| **60** | A | 007 | 5.2a |
| **61** | D | 007 | 5.6 |
| **62** | D | 007 | 5.10 |
| **63** | C | 007 | 6.8 |
| **64** | D | 007 | 7.2 |
| **65** | C | 007 | 9.3 |
| | | **Cyfanswm : 65 marc** | |
| | | | **Marc llwyddo 47/65.** |